HAF 2024
RHIFYN 29
buw.wales

UBC
BUW



# Y Negesydd

Y Greadigaeth a Gogoniant Duw

Cynadleddau'r Haf

Gobaith Radical yn India

*a mwy...*

# CYNNWYS

RHIFYN 29


1 Clawr

2 Gair Golygyddol

3 Cenhadaeth: Y Greadigaeth a Gogoniant Duw

4 Cynadleddau Haf

5 Gobaith yng nghanol Argyfwng

6 Newyddion UBC

7 Newyddion ar draws y Byd


8 Dod i nabod...



*Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater*


# GAIR *golygyddol*

HAF 2024



***Rydym ni i gyd yn 'negeswyr' o ryw fath. Rydym ni'n cario gwahanol negeseuon o'n calonnau a'n bywydau i'r bobl o'n cwmpas:*** *trwy ein geiriau a thrwy ein gweithredoedd.* ***.*** *Rydym ni hefyd yn derbyn negeseuon trwy'r amser – o gyfryngau cymdeithasol, o'r bobl o'n cwmpas, ac o'r amgylchedd yr ydym ni'n byw ynddo. Os mae hyn yn wir am y byd yr ydym ni'n byw ynddo, mae'n rhyfeddol meddwl sut mae'r Duw Tragwyddol yn siarad gyda ni trwy'r amser! Rydym ni'n gwybod mai Iesu oedd y 'Negesydd' a ddaeth i ddangos i ni'r Tad, ond rydym ni hefyd yn gwybod Ei fod yn parhau i siarad gyda ni heddi trwy Ei Air a'i Ysbryd Glân...*

Un o'r ffyrdd rydym ni'n gwybod y mae Duw yn cyfathrebu gyda ni yw trwy Ei greadigaeth (Salm 19:1). Adeg hon y flwyddyn, mae'r byd naturiol yn ein hamgylchynu gyda lliw a chyfoeth. Rhai o fy hoff atgofion haf yw'r rheiny ble treuliais i'r rhan fwyaf o f'amser tu fas. Mae un gwyliau yn benodol yn aros yn fy nghof pan aeth grŵp ohonom ar encil cerdded ym Mro'r Llynnoedd, ac fe dreuliais i'r rhan fwyaf o fy amser yn cerdded ac yn gweddïo am benderfyniad mawr yn fy mywyd. Fe wnes i ddarganfod fy mod i'n gallu cysylltu gyda chalon Duw yn y mynyddoedd unig mewn ffordd oedd yn anodd pan oeddwn wedi fy amgylchynu gyda phrysurdeb bywyd. Daeth Ei air yn fyw i fi hefyd wrth i fi gael amser i ddarllen a myfyrio ar y Beibl.

Yn y rhifyn hwn o'r Negesydd, mae Paul Smethurst yn archwilio rhai o'r ffyrdd y mae Duw yn defnyddio **Ei greadigaeth i siarad gyda ni,** a datgelu Ei ogoniant (t.3). Mae Duw hefyd yn ein gwahodd ni i bwyntio eraill ato Ef wrth iddyn nhw brofi harddwch y cread – elfen genhadol o'n hymwneud â'r greadigaeth. Credaf y mae'r ffordd y mae Duw yn cyfathrebu trwy'r greadigaeth wedi'i chysylltu â'r modd y mae E'n siarad â ni trwy Ei air – mae'r ddau yn cyfeirio at ei gilydd! Heb brofiad o'r greadigaeth, byddai'n anodd deall llawer o'r delweddau sydd yn y Beibl. Ond, pe baem ni'n dibynnu ar y cread yn unig i ddweud wrthym ni am Dduw, fyddem ni fyth yn dysgu am natur y Duw hwn sydd wedi datgelu'i hun trwy hanes, ac yn y pen draw trwy Ei Fab Iesu.

Y thema a blethodd trwy ein cynadleddau haf eleni oedd cyfoeth yr Ysgrythur, a sut y **siarada Duw gyda ni'n rymus trwy Ei air** (t.4). Roedd hi'n rhyfeddol cael ein hatgoffa gan Andrew Ollerton mor 'ddeinamig' yw'r Beibl, a sut mae'n parhau i drawsnewid bywydau. Ar dud. 8, rhanna'r Parchg Misha Pedersen am un o'i phrofiadau cyntaf o Dduw yn siarad gyda hi mewn astudiaeth Feiblaidd pan oedd yn ei harddegau, profiad a'i hysgogodd hi at ei galwad i fod yn 'negesydd'! Ar dud. 6 a 7 clywn am eraill sydd wedi cael eu **galw i fod yn 'negeswyr'** mewn amrywiol ffyrdd yng Nghymru, India a Thwrci. Sut bynnag yr ydych chi'n profi Duw yn siarad â chi amlaf – trwy ddarllen yr Ysgrythur, trwy weddi a gogoniant Ei greadigaeth, neu drwy'r amryw ffyrdd eraill y mae Duw yn siarad, fy ngweddi yw y bydd Duw yn defnyddio'r rhifyn hwn o'r Negesydd i nerthu a bendithio'ch calon...

*Yng Nghrist,*

**Sioned Graves** (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

# CENHADAETH: Y GREADIGAETH

# & gogoniant Duw



**Paul Smethurst** sydd yn rhannu rhai o'i brofiadau cenhadol diweddar, ac fel mae e'n gweld Duw yn defnyddio'r greadigaeth i siarad gyda'r rhai sydd yn Ei adnabod, a'r rhai nad ydynt eto yn ei adnabod!

Ysgrifennodd y Salmydd y geiriau, "Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw." Gan ein bod yn byw yn y Bannau Brycheiniog, gyda'i statws fel Gwarchodfa Awyr Dywyll, cawsom y fraint o gael seddi rhes gyntaf i brofi'r realiti yma! Ac wrth wasanaethu yn y gymuned, rydym yn dysgu mor greiddiol genhadol yw datganiad y Salmydd.

Rydym ni'n cael ein hannog yn aml i 'ddarganfod yr hyn y mae Duw yn ei wneud, ac i ymuno gydag Ef yn Ei waith.' Ers i ni gyrraedd yma ym mis Chwefror y llynedd, un o'r pethau rydym ni wedi gweld Duw yn ei wneud yw datgelu rhywbeth O'i ogoniant i bobl trwy'r amgylchfyd naturiol. I rai, mae'n debyg eu bod ond yn clywed llais tawel. I eraill, mae Ei lais yn cael ei foddi gan leisiau eraill; ond eto i eraill, yng ngeiriau cofiadwy Francis Schaeffer, mae'n glir 'Ei fod yno ac nad yw'n ddistaw.' Felly, wrth weld beth mae Duw wrthi'n ei wneud, newidiodd y cwestiwn i: 'Sut ydyn ni'n ymuno gydag Ef yn Ei waith?'


> *"I rai… mae'n debyg eu bod ond yn clywed llais tawel…"*

Wedi'i guddio yn ochr y bryn ger Penybegwm, dwy filltir a saith cant o droedfeddi yn uwch na'r pentref agosaf, y mae Capel Penyrheol. Er mor bellennig ydyw, dyma'r lle y daethom ar draws y cyfleoedd gorau i ymuno â Duw yn y rhan hon o'i genhadaeth. Gyda chefnogaeth SU Cymru, rydym wedi dechrau grŵp canol wythnos misol i bob oedran o'r enw 'Go Wild!'. Mae ethos y clwb yn syml. Gan ddefnyddio amgylchedd hyfryd tir Capel Penyrheol, rydym ni'n treulio amser gyda'n gilydd yn mwynhau ac yn archwilio'r greadigaeth tra hefyd yn darganfod am y Creawdwr. Rhai misoedd, byddwch chi'n ein darganfod ni yn adeiladu Gwesty Chwilod, misoedd eraill byddwn ni'n dysgu am ddefnydd brigau fyddai fel arall yn cael eu diosg, ac ym misoedd y gaeaf, byddwn ni'n dysgu sut i ddarganfod Seren y Gogledd. Mae'n ymarferol! Ac yna, wrth i ni ddod ynghyd gyda siocled poeth, byddwn yn siarad am yr hyn rydym ni wedi'i weld a'i wneud. Gyda'r greadigaeth yn gymorth gweledol, a straeon y Beibl yn gyfeillion i ni, rydym yn annog ein gilydd gyda chalonnau agored, i wrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthym. Mae'n hyfryd dros y misoedd gweld ein cymuned yn araf yn tyfu mewn nifer, ac mewn chwilfrydedd a mewn-welediad i'r Newyddion Da.



> *"Mae Duw hefyd wedi defnyddio'r fynwent…!"*

Mae Duw hefyd wedi defnyddio'r fynwent ym Mhenyrheol! Mae mynwentydd ymhlith y cynefinoedd mwyaf bioamrywiol yn ein gwlad. I gydnabod hyn, mae A Rocha UK, sefydliad cadwraethol Cristnogol, wedi sefydlu wythnos 'Eglwysi'n Cyfri Natur'. Mae'r wythnos yn rhedeg bob mis Mehefin, ac yn rhoi cyfle i'r gymuned gymryd 'awdit' o fyd natur mynwentydd a thiroedd eglwys. Ar ôl cychwyn gyda gwasanaeth bob oed, aethom i archwilio'r hyn sydd i'w ddarganfod ym Mhenyrheol. Roedd hi'n gam bach tuag at ofalu am greadigaeth Duw ac amlygu Ei ogoniant!



Felly, beth mae Duw yn ei wneud? Dyma gyfieithiad Eugene Peterson o eiriau'r Salmydd, 'God's glory is on tour in the skies…' Rydym wrth ein boddau yn ymuno yn Ei waith fel 'roadies' iddo!



# CYNADLEDDAU HAF UBC

**Bonni Davies** sydd yn rhannu adroddiad o Undeb ‘cofiadwy’ 2024, ac mae **Sioned Graves** yn rhannu o’i phrofiadau hi yng nghyfarfod AGM Sarn a’r gynhadledd iaith Saesneg Momentum i bob oed.





## Undeb 2024 Sir Benfro

“Adeiladaf Fy Eglwys” oedd thema Cynhadledd Flynyddol yr Undeb a gynhaliwyd yng Nghroesgoch, Sir Benfro ar 24-25 Mehefin. Yn ei anerchiad cafwyd sicrwydd gan y Llywydd newydd, y Parchg Geraint Morse, fod Eglwys Iesu Grist yn ddiogel am fod nerth yr Ysbryd Glân o’i chwmpas fel mur o dân, yr Iesu’n caru ei bobl a’i eglwys, ac y byddai’r etifeddiaeth yn parhau trwy achubiaeth a gras Duw.

Atgoffwyd pawb yn y defosiwn fore Mercher gan y Parchg Ddr Rhys Llwyd am y graig yr adeiladwyd yr eglwys arni; ac yn Oedfa’r Weinidogaeth, o dan arweiniad y Parchg John Treharne, am y maen a wrthodwyd gan yr adeiladwyr ond a ddaeth yn brif gonglfaen i’r bobl. Braf yn yr oedfa honno hefyd oedd cael croesawu gweinidogion newydd.

Tystiolaeth bellach o **Dduw’n adeiladu ei eglwys** oedd clywed am yr hyn oedd yn digwydd o fewn yr Undeb, gan gynnwys llwyddiant y penwythnos ‘Esgyn’ ar gyfer ieuenctid. Newyddion i ymhyfrydu ynddo oedd clywed fod dau a fu’n aelodau o’r Tîm i Gymru 2018, cynllun a roddai gyfle i ieuenctid ddirnad galwad Duw ar eu bywydau, ar fin cael eu hordeinio i’r weinidogaeth. Datblygiad pellach o adeiladu ar y sylfaen oedd y cynllun arfaethedig o ddiogelu’r Cymanfaoedd trwy sefydlu Rhanbarthau Corfforedig, a hynny wedi deillio o Adroddiad 2041, gwaith a oedd yn rhagweld sefyllfa’r eglwysi ymhen ugain mlynedd.

Roedd cyrraedd pobl yn eu cymunedau yn hanfodol bwysig ar gyfer adeiladu Ei eglwys a braf oedd clywed am yr hyn oedd ar y gweill yn Sir Benfro yn nalgylch Ysgol Caer Elen, Hwlffordd. Gwelwyd **ymdrech genhadol** i ymestyn i’r gymuned yng nghyfarfodydd yr Undeb eu hunain gan i’r cyhoedd gael eu gwahodd i’r gweithgareddau ymylol a oedd yn cynnwys noson barbeciw mewn bragdy a ddenodd nifer na fyddai fel arfer yn mynychu capel neu eglwys a lle clywyd tystiolaeth fyw am yr Arglwydd Iesu gan dri unigolyn. Ymgais arall ar estyn allan i’r gymuned oedd Apêl Undeb Bedyddwyr Cymru “Talentau Gobaith” a gafodd ei chefnogi’n hael drwy’r casgliadau a’r daith gerdded. Bu’n Undeb i’w chofio!

## Cyfarfod Sarn, Drenewydd

Cafodd yr AGM iaith Saesneg yn Sarn eleni ei lawnsio gyda chroeso cynnes a lletygarwch hyfryd gan aelodau Capeli Bedyddwyr Sarn a Kerry dros ginio. Yn y cyfarfodydd prynhawn, fe wnaethom ni glywed am benawdau gwaith UBC gan gynnwys gwaith y Gorfforaeth, Esgyn ac apêl Talentau Gobaith. Yn yr hwyr, cafodd y Parchg Maggie Rich ei hurddo fel llywydd newydd Adran ddi-Gymraeg UBC yng Nghapel Sarn. Fe wnaeth y Parch. Peter Thomas siarad yn rymus o fywyd Haggai, a’n herio i beidio â selio ein disgwyliadau am y dyfodol ar yr hyn sydd wedi bod, ond i edrych gyda sêl a gobaith i ddyfodol sydd **yn nwylo’r Arglwydd Atgyfodedig**, yn nerth yr Ysbryd Glân!

> **‘[Ni ddylem] selio ein disgwyliadau… ar yr hyn sydd wedi bod, ond edrych gyda sêl a gobaith i ddyfodol sydd yn nwylo’r Arglwydd Atgyfodedig!’**

## Momentum 2024

Mae Momentum yn ddiwrnod arbennig i’r holl deulu sydd yn cael ei gynnal bob blwyddyn gan deulu’r Bedyddwyr ar draws Cymru. Mae’n gyfle i ddod ynghyd, clywed straeon o Dduw

ar waith ar draws Gymru, a moli'r Arglwydd gyda'n gilydd! Eleni, cynhaliwyd Momentum ar yr 8fed o Fehefin yn yr Halliwell, Caerfyrddin.

Thema'r gynhadledd oedd 'Dynamic Words // Dynamic World'. Yn dechrau gyda sgwrs Andrew Ollerton, y thema clir a barodd trwy'r diwrnod oedd mor 'fyw' a 'grymus' yw geiriau Duw yn y Beibl i ni heddiw. Anogaeth Andrew i ni fel Cristnogion oedd i fod yn **agored i'r Ysbryd, agored i'r Ysgrythur, ac yn agored i'r dieithryn,** fel yr oedd Philip i'r eunuch o Ethiopia yn Actau. Roedd clywed am enwau enwogion (gan gynnwys un disgybl i Richard Dawkins) a oedd yn gynt yn gaeëdig i Dduw nawr yn troi at y Beibl a dod yn gredinwyr bedyddiedig, yn ein hatgoffa mewn ffordd real mor werthfawr a grymus yw gair Duw – mor aml y byddwn yn anghofio hyn! Fe wnaeth Arfon Jones hefyd ein hatgoffa mor allweddol fu cyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg ar gyfer hanes ein cenedl, ac mor bwysig ydyw ar gyfer yr oes bresennol. Cawsom ein hatgoffa hefyd fel mae Duw yn siarad yn bwerus gyda ni trwy Ei Ysbryd. Dyma Danni a Nick yn rhannu eu profiadau fel gweinidogion cenhadol ble mae 'presenoldeb' yn hollbwysig, a Maggie Rich yn rhannu am bwysigrwydd gwrando ar dystiolaeth y bobl hŷn. Fe wnaeth BMS World Mission, Coleg Bedyddwyr Caerdydd a Stephen Roberts i gyd gadarnhau pwysigrwydd ymwneud â gair Duw a llais Duw yn ein byd.

Rhannau anweledig i'r mwyafrif, efallai, oedd y ffrydiau plant phobl ifanc oedd yn cyd-rhedeg gyda'r sesiynau eraill. O egni byrlymus y Gemau Olympaidd a gynhaliwyd gan ICE Wales, i ffrwd ieuenctid gwych gyda thîm Esgyn, cafwyd diwrnod 'deinamig' gan bob oed!

# GOBAITH YNG NGHANOL ARGYFWNG

cymorth cristnogol



Fe wnaeth staff UBC ddal i fyny gyda Cymorth Cristnogol Zimbabwe, sydd yn wynebu caledi ac 'argyfwng cenedlaethol', ond sydd hefyd yn gweld arwyddion gobaith a newid yng nghanol y creisis.

**Ym mis Ebrill eleni, fe wnaeth Llywydd Zimbabwe gyhoeddi 'argyfwng cenedlaethol' yn y wlad o ganlyniad i sychder sydd wedi'i yrru gan effaith El Nino ac sydd wedi effeithio ar lawer o'r wlad.**

Mae'n teimlo'n amserol ein bod ni fel UBC yn barod wedi bod yn ymwneud gyda gwaith pwysig yn y wlad trwy ein **hapêl Talentau Gobaith** gyda Cymorth Cristnogol, apêl sydd wedi bod yn gweithio i gynyddu gwytnwch ffermwyr yn y wlad. Mae gwaith Cymorth Cristnogol Zimbabwe trwy raglen BRACT yn hollbwysig yn y cymunedau hyn. Cawsom yr anrhydedd yn ddiweddar o gael cyfres o sgyrsiau gyda'r tîm yn Zimbabwe. Fe rannon nhw gyda thîm UBC mor anodd yw'r sefyllfa ar hyn o bryd o ran effaith prinder dŵr ar bobl ac anifeiliaid, ynghyd â sialensau economaidd a gwleidyddol fu eisioes yn y wlad.

Mae Cymorth Cristnogol yn ymateb yn uniongyrchol i'r sychder trwy hyfforddi cymunedau mewn technegau cadwraeth ddŵr, cynyddu mynediad at ddŵr glân, a pharhau i ddatblygu dulliau ffermio cynaliadwy sydd yn cynyddu gwytnwch ffermwyr. Maen nhw hefyd wedi arsylwi bod cyfnodau o sychder yn tueddu i arwain at gynnydd mewn trais ar sail rhywedd, ac maen nhw'n gweithio gydag amryw o grwpiau i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymateb cymunedol i hyn.

Yn ôl Grace Mugebe o Gymorth Cristnogol Zimbabwe, mae gwaith rhaglen BRACT (y mae apêl Talentau Gobaith yn ei chefnogi) wedi gweld llwyddiant sylweddol, hyd yn oed yn ystod cyfnod o sychder. Dywedodd: 'Roeddem ni yn Mudzi yn ddiweddar, ac roedd hi'n galonogol iawn gweld cymunedau yn parhau yn wydn ac yn ymateb i'r sychder hwn. Roedd y cymunedau wedi bod yn gweithredu'r technegau amaeth newydd yr oedden nhw wedi eu dysgu trwy raglen BRACT, ac maen nhw'n barod yn paratoi ar gyfer eu dyfodol y tu hwnt i'r sychder!'. Rydym ni'n **parhau i sefyll gyda chymunedau** yn Zimbabwe wrth i ni edrych at fisoedd olaf apêl Talentau Gobaith – pam na fysech chi'n ymuno â ni wrth i ni eu cefnogi trwy'r cyfnod anodd hwn?

*Mae apêl Talentau Gobaith yn parhau tan fis Rhagfyr 2024. I gefnogi'r apêl, gallwch ymuno â ni i godi arian wrth i ni anelu i gerdded 750+ o filltiroedd fel rhan o her CERDDED! Cymru a Zimbabwe cyn mis Hydref. Gallwch chi hefyd roi tuag at yr apêl ar ein wefan.*

# NEWYDDION ar draws

## BMS & Chenhadaeth yng Nghymru

**Ychwanegwyd o leiaf dau weithiwr newydd i faes cenhadaeth ar draws deulu UBC a BMS World Mission yng Nghymru yr haf hwn.**



Mae tîm BMS World Mission yn tyfu yng Nghymru wrth i **John Settatree** ddechrau fel Rheolwr Ymgysylltu ag Eglwysi ym mis Gorffennaf. Bydd ei waith yn ymestyn ar draws y DU, ond bydd Cymru yn rhan o'i faes ac mae'n edrych ymlaen at adeiladau cysylltiadau gydag eglwysi yng Nghymru. Bydd e'n ymuno ag eraill o dîm BMS sydd eisoes yng Nghymru. Rydym hefyd yn croesawu **Phil Vickery** fel Gweindiog Cenhadol yn Nhŷ Ddewi wrth iddo ymuno â thîm y Groesfan gyda UBC. Deisyfwn fendith Duw arnynt wrth iddynt gychwyn ar eu gwaith yn y maes cenhadol.

## Esgyn: Antur a Ddaw!

*(parh. drosodd)*




## Newyddion o Goleg Bedyddwyr Caerdydd

**Y Barch. Ddr Rosa Hunt ac Ed Kaneen sydd yn rhannu eu hyder yng ngwaith Duw wrth iddyn nhw ddod i ddiwedd y flwyddyn yng Ngoleg Bedyddwyr Caerdydd.**

Pan wnaethom ni gwrdd fel tîm staff yn ôl ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom ni weddïo am air neu adnod ar gyfer y flwyddyn hon yn y Coleg. Y gair a ddaeth i'r amlwg oedd 'hyder'. Ac yn enwedig, Philipiaid 1:6: 'Yr wyf yn sicr o hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd waith da ynoch ei gwblhau erbyn Dydd Crist Iesu.'




Coleg Y Bedyddwyr Caerdydd | Cardiff Baptist College

Mae'r ddau ohonom yn dod i ddiwedd y flwyddyn yn teimlo'n hyderus yng ngras Duw. Rydym ni newydd lofnodi partneriaeth newydd a hanesyddol gydag UBC, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac Undeb yr Annibynwyr. O ganlyniad i'r bartneriaeth, yn ogystal â'r berthynas sydd yn parhau gyda BUGB, rydym ni'n edrych ymlaen at groesawu oddeutu **13 o fyfyrwyr newydd ym mis Medi** – a dwy ohonynt, **Paula Hughes a Lynne Lewis** yn dod o UBC. Serch hynny, byddwn ni'n gweld eisiau'r myfyrwyr sydd yn gadael yn fawr. Y myfyrwyr o UBC fydd yn ein gadael fydd **Dale Norman, Gruff Jenkins, Hannah Smethurst – a Wynford Jones a Dorithy Evans** a ymunodd â ni ar gyfer Hanes ac Egwyddorion Bedyddiedig. Rydym ni'n edrych ymlaen at barhau i deithio gyda'r myfyrwyr fydd gyda ni o hyd. Plîs gweddïwch drostyn nhw, yn enwedig myfyrwyr UBC sef: **Natalie Morgan, Sammy Llewellyn, Morwenna Thomas a Michael Thomas-Bizjak.**

Rydym ni'n ehangu ein rhaglen hyfforddi gweinidogaethol o fis Medi 2024 ymlaen, gyda myfyrwyr yn cael cynnig dewis astudiaethau *(parh. drosodd)*

*(parhâd o 'Esgyn: Antur a Ddaw!')* Ar ôl croesawu 32 o bobl ifanc i Dreharris ym mis Chwefror eleni, mae tîm Esgyn yn gyffrous i gyhoeddi y bydd ail benwythnos Esgyn yn digwydd ar yr **22-24ain o Dachwedd** yn yr un lleoliad. Bydd ffurflenni bwcio yn mynd ar wefan UBC dros fisoedd yr haf. Bwriad y tîm yw ail-osod amseru penwythnos Esgyn i'r Hydref, gyda diwrnod ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer cynhadledd Momentum. Estynnwn groeso i unrhyw un oed 11-16 i ymuno â ni mewn anturiaethau newydd eleni wrth i ni 'ddod ynghyd i dyfu mewn ffydd, ac esgyn mewn gobaith ar gyfer cenedlaeth newydd'!

*(parhâd o 'Newyddion o Goleg Bedyddwyr...')* yn ystod yr wythnos trwy Brifysgol Caerdydd, neu raglen ran-amser dros y penwythnos o'r enw Pathways Plus trwy'r Coleg. Rydym ni hefyd yn treialu hwb yng Ngogledd Cymru. Diolch am eich cefnogaeth gyson, nid lleiaf trwy weddi. A allem ni ofyn yn garedig i chi annog eich eglwysi i weddïo dros, canfod ac annog y rhai y mae Duw yn galw i'w weinidogaeth? Mae arnom ni eu hangen nhw! Nid yn unig yma yn y Coleg, ond yn fwy pwysig, i wasanaethu'r Deyrnas yng Nghymru a thu hwnt.

# NEWYDDION ar draws *y byd*

## Etholiadau a Gobaith Radical yn India

**Ym mis Ebrill eleni, fe ddechreuodd un o etholiadau cyffredinol mwyaf y byd – pan oedd hawl i 969 miliwn o bobl bleidleisio yn etholiad cyffredinol India.** Fe wnaeth nifer o Gristnogion ofyn am weddi dros y wlad, wrth i'r blaid geidwadol Hindŵaidd BJP a fu'n gwthio erledigaeth o Gristnogion a dilynwyr o grefyddau lleiafrifol eraill wthio am fuddugoliaeth fawr, a nifer yn ofni am yr effaith ar ddiogelwch Cristnogion a lleiafrifoedd eraill.

Ar ddiwedd y cyfnod etholiadol ym mis Mehefin, gwelodd y BJP fuddugoliaeth lai na'r disgwyl, a nifer o Gristnogion yn obeithiol y byddai'r lleihad mewn hyder yn sicrhau y bydd y llywodraeth **yn cael ei alw i gyfrif** am ei driniaeth o leiafrifoedd crefyddol. Er gwaethaf realiti erledigaeth yn y wlad, yn ôl BMS World Mission, mae'r eglwys yn tyfu mewn ffydd. Yn ôl Ben Francis sydd yn gweithio gyda'r BMS, mae'r Arglwydd yn defnyddio erledigaeth yn India i gryfhau Ei bobl, ac yn achosi nifer i 'eistedd i fyny ac i gymryd sylw o Gristnogaeth'.



Mae Ben wedi gweld **4,000 o grwpiau 'creu disgyblion'** yn cael eu ffurfio yn y flwyddyn ddiwethaf, a nifer o'r rhain yn plannu eglwysi tŷ yn eu cartrefi neu mewn marchnadoedd neu siopau coffi. Maen nhw'n gweld nifer yn cael eu denu atynt, yn gofyn sut y gallent ddarganfod mwy, er gwaethaf ofn erledigaeth. Beth am i ni weddïo dros ein brodyr a chwiorydd yn India wrth iddyn nhw edrych at ddyfodol eu gwlad?

## Tystiolaeth Bedyddwyr Twrci

**Gelwir Twrci yn aml yn 'fan geni' Cristnogaeth. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i deithiau cenhadol Paul** a ddigwyddodd yn y Twrci fodern, a phresenoldeb y saith eglwys yn llyfr Datguddiad. Serch hynny, adnabyddir Twrci heddiw fel un o'r cenhedloedd mwyaf anodd o ran presenoldeb a rhyddid Cristnogol. Mae 99% o boblogaeth Twrci yn Fwslemiaid yn swyddogol, ac mae Cristnogion ond yn cyfrannu at 1% o'r boblogaeth.




Yn ôl Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF), mae sawl cynulleidfa Fedyddiedig yn Nhwrci, ac maen nhw'n **edrych mewn ffydd** at yr hyn y mae Duw am ei wneud yn y wlad wrth iddyn nhw ddechrau plannu eglwysi yn eu cymunedau lleol. Mae sawl grŵp o Gristnogion Twrceg wedi dechrau adeiladu pontydd gyda phobl Twrceg trwy weinidogaeth gymdeithasol, llenyddiaeth, cwrdd ag unigolion sydd â diddordeb yn Iesu, a digwyddiadau o gwmpas gwyliau Cristnogol.

Fe wnaeth un Gweinidog adrodd i EBF yn ddiweddar sut y mae'r digwyddiadau hyn wedi dechrau magu ymddiriedaeth yn y gymuned, ac wedi creu argraff ar y cyfryngau lleol! Mae nifer nawr yn gwybod bod yna Gristnogion yn eu hardaloedd, lle yn flaenorol nid oeddent yn ymwybodol o'u bodolaeth!

# Dod i nabod...

# Elsa & Misha



Yn y rhifyn hwn, down i adnabod dwy mewn un! - **Elsa Harflett** a'r **Parch. Misha Pedersen,** sydd yn gyfeillion da ac yn gweithio ar y cyd yng Nghapel Bedyddwyr Pentref. Daethon nhw yn Llywyddion ar y cyd ar y Senana eleni, sefydliad o fenywod ymhlith y Bedyddwyr sydd yn cefnogi gwaith BMS World Mission.

**Diolch am eistedd i lawr am sgwrs! I gychwyn, sut wnaeth y ddwy ohonoch chi ddod i Gymru?**

Elsa: Yn wreiddiol, ces i fy ngeni yn Malaysia ble roedd fy nhad yn athro, ond ces i fy magu yn Somerset, ac yna Wiltshire. Doeddwn i erioed eisiau byw yng Nghymru, ond fe wnaeth amgylchiadau teuluol arwain at symud i'r Bontnewydd-ar-Wy yn 2013. Wrth edrych nôl, dwi'n gallu gweld llaw Duw ar waith, ac mae wedi teimlo fel 'adref' ers hynny!

Misha: Dwi'n dod o Ddenmarc yn wreiddiol! Ond, dwi wedi bod yma ers dros 8 mlynedd. Cyn hynny, roeddwn i'n gweithio gyda Geopark yn Denmarc. Roedd un yn y wlad hon a bûm ar ymweliad iddo yn y Bannau Brycheiniog fel rhan o'm astudiaethau. Yn y pen draw trwy wahanol amgylchiadau, fe wnes i benderfynu aros yng Nghymru.

**Sut fyddech chi'n disgrifio eich taith ffydd?**

Misha: Doedd fy nheulu ddim yn deulu eglwysig pan oeddwn i'n tyfu i fyny. Ond, pan oeddwn i'n 14 neu 15 mlwydd oed, ces i brofiad clir iawn o Dduw yn siarad trwy astudiaeth Feiblaidd. Yr un noson, roeddwn i ar ddi-hun yn ysgrifennu ychydig o farddoniaeth ac – yn sydyn – fe wnaeth yr hyn roeddwn i'n ei ysgrifennu droi yn gerdd am gariad Duw!

Serch hynny, fe ges i amser anodd. Roedd y cyd-destun roeddwn i ynddo fe yn teimlo'n eitha trwm yn ysbrydol, a doedd dim dealltwriaeth gen i am ryddid y bywyd Cristnogol. Fe wnes i deimlo galwad i'r weinidogaeth, ond fel menyw, roedd hynny'n anghyffredin yn yr eglwys lle cefais fy magu, a doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud! Ond, des i nôl i ffydd fywiol trwy'r Cwrs Alpha, ble gwnes i ddarganfod realiti yr Ysbryd Glân, rhyddid Crist, a gras! Fe wnes i hefyd ymdeimlo â'r alwad i'r weinidogaeth yn dychwelyd.

Elsa: Mae'n anodd pwyntio at amser penodol i fi. Ces i fy magu mewn teulu Cristnogol, ac felly fe ddigwyddodd yn raddol. Ond, efallai dwi'n gallu edrych nôl at amser ble roedd hi'n fwy o fater o 'fynd trwy'r mosiwns,' ond nes ymlaen fe wnes i sylweddoli bod fy ffydd wedi dod yn eiddo i fi. Roedd amserau o 'ddrifftio', ond yn union fel pan fyddwch yn tynnu ar fand elastig, fe wnaeth Duw ddod â fi nôl bob tro!

**Sut mae gweinidogaeth yn edrych i'r ddwy ohonoch chi yng Nghapel Pentref?**

Misha: Mae gennym ni gynulleidfa fach... ond mae enw gennym am fod yn lle croesawgar a chynnes. Doedd dim plant gyda ni am gyfnod hir, ond ychydig o flynyddoedd yn ôl fe wnaethom ni ddechrau gweddïo am y peth, a thrwy atebion i weddi a chamau ffydd mae nawr Ysgol Sul gennym! Mae'r rhieni yn dod i'r gwasanaethau, ac rydyn ni'n caru'r ffaith eu bod nhw'n gallu clywed yr efengyl. Rydym ni'n aml yn darganfod ein hunain yn gofyn, 'Oes rhaid inni wneud pethau yn yr un ffordd o hyd, neu a oes modd trio rhywbeth gwahanol?'. Felly, rydym yn arbrofi gydag addoli o gwmpas byrddau. Rydym hefyd wedi dechrau trefnu pryd o fwyd bob mis. Rydym ni'n cael tro ar wasanaethau sydd ychydig yn wahanol bob 5ed Sul, er enghraifft 'Pizza, Mawl a Phypedau'!

**Beth yw eich gweddi fel arweinwyr Capel Bedyddwyr Pentref a'r Senana?**

Misha ac Elsa: Ein gweddi fel eglwys yw i groesawu pobl efallai nad ydynt yn berchen ar ffydd, a rhoi'r rhyddid iddynt archwilio'r ffydd. Dwi o hyd yn dweud, 'Mae gan Dduw degell sydd yn berwi yn Ei gegin, ac mae cwpan ar y wal gyda phob un o'n henwau arno fe, a'r cyfan mae Duw am i ni wneud yw cymryd cwpan i lawr a chael paned!'. Gyda Senana, byddem ni'n caru gweld mwy o fenywod iau yn cymryd rhan wrth i ni gefnogi gwaith BMS ar draws y byd.

*Gallwch chi ddarganfod mwy am Senana ar wefan UBC o dan 'Amdanom ni". Bydd y Senana nesaf yn digwydd ar y 3ydd - 5ed o Fedi yng Ngoleg Trefeca. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag elsa.harflett.eh@gmail.com*